Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn
Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor / Bangor City Council Offices
Bangor
Gwynedd. LL57 IDT

**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd & Môn**
**Joint Planning Policy Unit Anglesey & Gwynedd**

☎ (01286) 679890

www.ynysmon.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk

Gofynnwch am / Ask for: Nia Davies
☎ (01286) 679890
✉ niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru

Mr Hywel Jones
Arolygydd
Dan ofal Swyddog Rhaglen yr Archwiliad

Ein Cyf / Our Ref:
Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: 17 Mehefin 2016

Annwyl Syr

**Parthed: Cynllun Adnau - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn) – llety dros dro i Sipsiwn a Theithwyr, Ynys Môn**

Yn y cyfarfod cyn gwrandawiad ar y 14 Mehefin 2016 fe wnaeth y Cyngor ofyn i chi ystyried cynnal y Sesiwn Gwrandawiad Cyhoeddus am faterion Sipsiwn a Theithwyr i wythnos tri neu pedwar o Rhaglen yr Archwiliad. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn a safleoedd dros dro ar Ynys Môn gofynnwyd i'r Cyngor baratoi llythyr ffurfiol i gyfiawnhau symud y gwrandawiad penodol yma.

'Roedd fy llythyr i chi, dyddiedig 31 Mai, 2016 (DA.003a a DA.003b) yn esbonio bod y gwaith o asesu safleoedd dros dro yn ystod ymgynghoriad Chwefror / Mawrth 2016 wedi methu a dod o hyd i safleoedd addas ar yr Ynys a bod gwaith pellach angen ei wneud er mwyn adnabod safleoedd eraill posib a chynnal cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus arnynt.

Mae'r gwaith ychwanegol a gyfeirir tuag ato yn y llythyr dyddiedig 31 Mai, 2016, h.y. sgorio safleoedd yn erbyn matrics sgorio, ymholiadau efo cyrff statudol a thirfeddianwyr wedi cymryd lle ac mae 5 safle posib yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng yr 2il o Fehefin a'r 1af o Orffennaf. Isod mae linc i safle we y Cyngor sydd yn cyfeirio tuag at yr ymgynghoriad yma:

http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/ymgynghori/ymgynghoriad-ar-fannau-stopio-dros-dro-yn-ynys-mn-ar-gyfer-sipsiwn-a-theithwyr/128871.article?redirect=false

Mae adroddiad ar ganlyniad y cyfnod yma o ymgynghori wedi cael ei rhaglennu ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini ar y 19 o Orffennaf a'r Pwyllgor Gwaith ar y 25 o Orffennaf. Oherwydd yr ymrwymiad gan Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor i'r gwaith yma mae'r Cyngor wedi sicrhau bod adnoddau digonol wedi cael ei roi ar gyfer dadansoddi sylwadau a gyflwynir yn ystod yr ymgynghoriad ac er mwyn paratoi adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Mae Aelodau o'r Cyngor wedi cael hyfforddiant a'u briffio ar y pwysigrwydd o adnabod safleoedd penodol ar gyfer cyfarch anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun a theimlir bod gwaith y

ddau Gyngor i adnabod safleoedd i gyfarch yr angen parhaol a'r gwaith sydd yn mynd yn ei flaen ar gyfer adnabod safleoedd dros dro yn dangos ymrwymiad y Cynghorau i'r broses yma.

Yn ôl trefn cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn mae gan aelodau etholedig hyd at 5 diwrnod i wrthwynebu penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith a'i alw i mewn (yn unol a rhan 4.5.16 o Gyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Mon). Mewn sefyllfa o'r fath bydd cyfle i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried os ydynt am i'r Pwyllgor Gwaith ystyried eto, neu cyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor llawn. Nid yw Pwyllgorau'r Cyngor Sir yn cyfarfod fel arfer yn ystod mis Awst, ac os byddai'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn, byddai'n rhaid gweithredu dros yr haf i drafod a datrys y sefyllfa. I sicrhau bod y Cyngor yn gallu rhoi darlun diweddaraf yn yr Archwiliad buasai symud y gwrandawiad ar y mater Sipsiwn a Theithwyr i'r 3ydd neu'r 4ydd wythnos yn sicrhau bod unrhyw achos o'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn wedi cael ei gwblhau cyn y gwrandawiad.

Os ydych eisio esboniad pellach am unrhyw elfen o'r hyn a amlinellir uchod peidiwch ag oedi rhag dod yn ôl ataf.

Yn gywir



**Nia H Davies**
**Rheolwr Cynllunio (Polisi)**

Prif Swyddfa / Head Office
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Swyddfa'r Cyngor / Council Office
CAERNARFON
Gwynedd. LL55 1SH
(01766) 771000